Y
Comisiwn
Etholiadol

Trosolwg

# Trosolwg o gyfrifon i drysoryddion uned gyfrifo

Mae'r ddogfen hon i drysoryddion uned gyfrifo sydd eisiau amlinelliad sylfaenol o'u cyfrifoldebau am gofnodion ariannol.

Cynnwys:


Crynodeb o'ch cyfrifoldebau

Cadw cofnodion clir a chywir

Paratoi eich datganiad cyfrifon

## Termau ac ymadroddion yr ydym yn eu defnyddio

Rydym yn defnyddio ‘rhaid’ pan fyddwn yn cyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydym yn defnyddio ‘dylai’ ar gyfer eitemau yr ydym yn eu hystyried yn arfer da isafswm, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes rhaid i chi ddilyn yr arweiniad hwn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â’r gyfraith.

## Ein hymagwedd at orfodi

Os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol gallech chi neu’ch sefydliad fod yn destun cosbau sifil neu droseddol. Gellwch gael mwy o wybodaeth am ymagwedd y Comisiwn at orfodi yn www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement

# Cyfrifon i drysoryddion uned gyfrifo

## I bwy mae’r ddogfen hon:

Trysoryddion unedau cyfrifo pleidiau

## Mae’r ddogfen yn cwmpasu:

- Crynodeb o’ch cyfrifoldebau
- Cadw cofnodion clir a chywir
- Paratoi eich datganiad cyfrifon blynyddol
- Anfon eich datganiad cyfrifon atom

## Dogfennau cysylltiedig:

- Cyflwyniad i fod yn drysorydd plaid
- Cyfrifo arian i drysoryddion uned gyfrifo
- Cyfrifo croniadau i drysoryddion uned gyfrifo

## Templedi datganiad cyfrifon:

- Templed Word Datganiad cyfrifon – cyfrifo arian
- Templed Word Datganiad cyfrifon – cyfrifo croniadau

## Teclyn taenlen datganiad cyfrifon:

- Teclyn taenlen datganiad cyfrifon

2

# Crynodeb

Fel trysorydd uned gyfrifo plaid, rydych yn gyfrifol am gydymffurfiad eich uned â'r rheolaethau ariannol o dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Mae hyn yn cynnwys cadw cofnodion cyfrifo. Efallai hefyd y bydd rhaid i chi anfon datganiad cyfrifon ffurfiol atom.

Bydd y trosolwg hwn yn rhoi dealltwriaeth i chi o'r hyn yw eich cyfrifoldebau a ble y gellwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth.

# Cyflwyniad

Mae bod yn drysorydd cofrestredig uned gyfrifo plaid yn gyfrifoldeb sylweddol. Rydych yn rheoli cyfrifon eich uned ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA).

Gall swnio'n broblemus, ond gyda threfniadaeth dda, cadw cofnodion yn drylwyr a gwybodaeth gyfredol o'r rheolau, gall fod yn rôl foddhaol iawn. Ac rydym yma i'ch helpu os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Mae'r trosolwg hwn yn amlinellu'r hyn rydych angen ei wybod ynghylch cadw cofnodion cyfrifo a pharatoi datganiad cyfrifon.

Rydych yn drysorydd uned gyfrifo os ydych wedi eich penodi fel un gan eich plaid a bod eich manylion wedi eu rhoi ni.

## Defnyddio'r canllaw hwn

Nid yw ein canllaw yn mynd i fanylion ynghylch materion a fydd ond yn berthnasol i'r pleidiau ac unedau cyfrifo mwyaf, fel ymdriniaeth o bensiynau a defnydd safonau cyfrifo.

Fel arfer bydd pleidiau sydd angen delio â'r rhain gyda mynediad at eu cynghorwyr eu hunain. Fodd bynnag, rydym yn hapus i drafod materion penodol a rhoi cyngor ble bo'n briodol.

# Crynodeb o'ch cyfrifoldebau

Rhaid i chi:

- gadw cofnodion cyfrifo clir a chywir
- baratoi datganiad cyfrifon blynyddol a'i anfon atom
- os yw eich incwm neu wariant dros £25,000, anfonwch eich datganiad atom i'w gyhoeddi
- os yw eich incwm neu wariant dros £250,000, trefnwch i archwilydd cymwys archwilio'ch cyfrifon, ac anfonwch gopi atom o adroddiad yr archwilydd gyda'ch datganiad cyfrifon
- sicrhau eich bod yn cadw'ch cofnodion cyfrifo am 6 blynedd

Gellwch ganfod mwy am bob un yng ngweddill y ddogfen hon.

# 4

## Cadw cofnodion clir a chywir

Rhaid i chi wneud yn siŵr fod eich cofnodion yn dangos trafodion eich uned a rhoi darlun sy'n rhesymol gywir o'i sefyllfa ariannol ar unrhyw adeg.

Bydd cadw'r cofnodion hyn yn gywir yn eich helpu i baratoi eich datganiad cyfrifon blynyddol.

### Yr hyn mae rhaid i'ch cofnodion ei ddangos

Rhaid i'ch cyfrifon gynnwys

- cofnodion sy'n dangos yr holl arian mae'r uned wedi ei dderbyn a'i wario o ddydd i ddydd
- gwybodaeth sylfaenol ynghylch yr hyn mae bob cofnod yn ymwneud ag ef. Er enghraifft, o ble y daeth yr incwm, neu'r hyn y gwariwyd yr arian arno ac i bwy y cafodd ei dalu.
- cofnod o asedau a rhwymedigaethau'r uned.

### Dulliau cyfrifo

Cewch ddefnyddio naill ai gyfrifo arian neu gyfrifo croniadau.

Mae'n debyg y bydd gan eich plaid ganolog ei rheolau ei hun neu ganllawiau ynglŷn â pha ddulliau cyfrifo y dylech eu defnyddio. Dylech ofyn i'ch plaid ganolog ynghylch eu gofynion neilltuol.

Y prif wahaniaeth rhwng y ddau ddull yw:

- Gyda chyfrifo arian rydych yn cofnodi trafodion dim ond pan fo'r arian wedi newid dwylo. Golyga hyn, er enghraifft, nad ydych yn rhoi cyfrif am ddibrisiant.
- Gyda chyfrifo croniadau, rydych yn cofnodi trafodion pan fo'r budd wedi ei dderbyn neu ei roi, hyd yn oed os nad yw eto wedi'i dalu amdano. Golyga hyn, er enghraifft, fod angen i chi roi cyfrif am ddyledwyr, credydwyr, a rhagdaliadau.

.

Rydym wedi cynhyrchu canllaw a thempled datganiad cyfrifon ar gyfer cyfrifo arian ac ar gyfer cyfrifo croniadau.

Rydym hefyd wedi cynhyrchu teclyn taenlen Datganiad cyfrifon mewn Excel a fydd yn rhoi'r ffigyrau'n syth i'r templed Word perthnasol i chi ei gwblhau.

Byddant yn helpu ei gwneud yn haws paratoi eich datganiad cyfrifon blynyddol.

Os y defnyddiwch eich templedi'n gywir, byddwch yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith

# Paratoi eich datganiad cyfrifon blynyddol

Os ydych wedi cadw cofnodion cyfrifo da drwy'r flwyddyn, dylai paratoi eich datganiad cyfrifon blynyddol fod yn syml.

## Beth i'w roi yn y datganiad cyfrifon

Dylech gynnwys:

- Trosolwg o'r gweithgareddau gwleidyddol ac ariannol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn honno
- Cyfrif incwm a gwariant
- Mantolen, yn dangos asedau a rhwymedigaethau'r uned

Rhaid i bwyllgor rheoli'r uned gymeradwyo'r datganiad hwn. Os nad oes gan eich uned bwyllgor rheoli, rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan un o swyddogion yr uned, heblaw'r trysorydd.

## Fformat eich datganiad cyfrifon

Nid oes rhaid i chi ddefnyddio fformat neilltuol ar gyfer eich datganiad cyfrifon

Fodd bynnag, rydym yn cyhoeddi canllaw ar y fformat a argymhellir gennym ar gyfer cyfrifo arian a chyfrifo croniadau, gan gynnwys taenlenni templed sy'n eich helpu i baratoi eich datganiad.

Os ydych yn defnyddio templedi, a'ch bod yn seilio'ch cyfrifon ar gofnodion cywir, byddwch yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

Mae'n debyg y bydd gan eich plaid ganolog ei rheolau ei hun neu ganllawiau ynglŷn â pha fformat a dull y dylech eu defnyddio. Dylech ofyn i'ch plaid ganolog ynghylch eu gofynion neilltuol.

Gellwch ddal i ddefnyddio ein teclyn taenlen datganiad cyfrifon hyd yn oed os nad ydych yn ei ddefnyddio i gadw'ch cofnodion drwy'r flwyddyn.

## A oes angen i'ch cyfrifon gael eu harchwilio?

Rhaid i chi gael cyfrifiad annibynnol o'ch cyfrifon os yw **naill ai** eich incwm gros neu gyfanswm gwariant yn fwy na £250,000.

Pwysig

Os yw eich incwm a gwariant yn llai na £250,000, efallai y gallwn ddal i'ch cyfarwyddo i gael archwilio'ch cyfrifon, os credwn ei fod yn ddymunol gwneud hynny

# Anfon eich datganiad cyfrifon atom

Fel trysorydd uned gyfrifo, dim ond os yw incwm gros neu gyfanswm gwariant eich uned yn y flwyddyn ariannol honno'n fwy na £25,000 mae angen i chi anfon eich cyfrifon atom.

Pwysig

## Pryd mae angen i chi anfon eich cyfrifon?

A yw incwm/gwariant eich uned yn **£250k neu lai?**

↓

Cyflwynwch o fewn pedwar mis i ddiwedd eich blwyddyn ariannol.

A yw incwm/gwariant eich uned **dros £250k?**

↓

Cyflwynwch o fewn chwe mis a saith diwrnod o ddiwedd eich blwyddyn ariannol, gydag adroddiad archwilydd annibynnol

# Beth sy'n digwydd nesaf?

Byddwn yn cadarnhau ein bod wedi derbyn eich datganiad cyfrifon.

Rydym yn cyhoeddi'r datganiadau cyfrifon a dderbyniwn ar ein gwefan. Gellwch weld sut mae cyfrifon yn ymddangos ar ein gwefan ar http://www.electoralcommission.org.uk/party-finance/PEF-online-registers/statements-of-account

# Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?

Os nad ydych yn anfon eich cyfrifon atom erbyn y terfyn amser, gallech chi neu eich plaid fod yn destun i gosb. Hefyd gallech chi neu'ch plaid fod yn destun i gosb os nad yw eich cyfrifon yn cwrdd â'r gofynion cyfreithiol.

Rydym yn cydnabod fod nifer o unigolion sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r gyfraith ynghylch datganiadau cyfrifon yn wirfoddolwyr. Byddwn yn cymryd ffeithiau bob achos i ystyriaeth, a dim ond os oes angen a'i fod yn gymesur y byddwn yn cymryd camau.

Gellwch ganfod mwy am ein polisi gorfodaeth, ein pwerau goruchwylio a'r cosbau y gallwn eu defnyddio ar http://www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement .

8

# Sut y gallwn helpu

Gellwch ganfod rhagor o wybodaeth yn y dogfennau canllaw rydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen hon, neu gellwch weld yr ystod gyfan o ganllawiau ac adnoddau cyfredol ar ein gwefan.

Os yw'n haws, gellwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch os gwelwch yn dda.

Galwch ni ar:

- **Lloegr**: 020 7271 0616
  pef@electoralcommission.org.uk
- **Yr Alban:** 0131 225 0200
  infoscotland@electoralcommission.org.uk
- **Cymru**: 029 2034 6800
  infowales@electoralcommission.org.uk
- **Gogledd Iwerddon**: 028 9089 4020
  infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ymwelwch â ni ar www.electoralcommission.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau – anfonwch e-bost atom ar: pef@electoralcommission.org.uk

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk